

Prif Swyddog Polisi Adnoddau Dynol

Gweithio i Colegau Cymru

Contract

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cynnig contract cyflogaeth llawn amser neu ran-amser, yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf a thystlythyrau boddhaol. Bydd y contract am gyfnod penodol hyd at 31 Awst 2023, ac ar yr adeg honno bydd penderfyniad yn cael ei wneud i wneud y swydd yn un barhaol ai peidio. Mae gwiriad DBS yn berthnasol i'r rôl hon.

Cyflog

Dangosir graddfa gyflog y swydd hon ar y disgrifiad swydd a'r hysbyseb swydd. Telir cyflogau bob mis mewn ôl-ddyledion ar yr 28ain diwrnod o'r mis.

Gwyliau

Mae nifer hael wyliau blynyddol ar gyfer y rôl hon yn cynnwys dyraniad o 37 diwrnod. Yn ogystal â'r hawl bersonol hon, bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hawl i 8 gwyliau cyhoeddus ynghyd â diwrnodau ychwanegol.

Oriau Gwaith

Yr oriau llawn amser dan gontract yw 37 awr yr wythnos ac eithrio egwyliau prydau bwyd bob dydd. Bydd yr oriau gwaith yn gymaint i ddiwallu anghenion y swydd.

Weithiau, gellir disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fynychu cyfarfodydd gyda'r nos neu ar benwythnosau. Mae'r sefydliad yn gweithredu polisi TOIL (time off in lieu).

Pensiwn

Bydd Colegau Cymru yn gwneud cyfraniad misol i gynllun pensiwn yr ymgeisydd llwyddiannus. Os nad yw'r unigolyn yn cyfrannu tuag at gynllun pensiwn ar hyn o bryd, bydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig i gynllun pensiwn gweithle.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael y dewis i gyfrannu at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS).

Cyfnod Rhybudd

Mae angen tri mis o rybudd.

Cyfnod Prawf

Mae cyfnod prawf o dri mis yn berthnasol i'r rôl hon.

Lleoliad

Bydd y rôl yn gyfuniad o weithio gartref a gwaith swyddfa, wedi'i leoli yn Nhongwynlais, Caerdydd. Mae parcio am ddim yn ein hadeilad.

Gall y swydd gynnwys rhywfaint o deithio ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol, sy'n gofyn am aros dros nos.

Eich Gwybodaeth

Os dewiswch wneud cais am rôl gyda ColegauCymru, bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth amdanoch chi. Efallai y byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth amdanoch chi gan drydydd parti, fel eich canolwyr a, lle bo hynny'n berthnasol, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i bennu eich addasrwydd ar gyfer y rôl hon ac, os ydych chi'n llwyddiannus, i reoli ein contract cyflogaeth gyda chi. Ymdrinnir â'ch gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae mwy o wybodaeth am sut rydym yn prosesu data personol i'w gweld yn ein [Hysbysebiad Preifatrwydd](#).